DARGANFOD WRECSAM

Y RHWYDWAITH EGLWYS AGORED









EGLWYS BLWYF SAN SILYN

Ystyrir San Silyn fel eglwys blwyf ganoloesol orau Cymru. Mae ganddi hanes cyfoethog a llu o drysorau a mwynderau ar gyfer yr ymwelydd, ac eto mae'n parhau'n eglwys brysur, boblogaidd lle mae'r gynulleidfa'n ymroddedig i addoli ac i gydnabod presenoldeb Duw yn ein bywydau bob dydd.

Mae'r Tŵr Mawr yn un o "Saith Ryfeddod Cymru" a'r tu mewn gwelir nenfwd wedi'i addurno â 16 angel lliwgar yn seinio offerynnau a chanu.

Mae celf a chrefydd yn ymdoddi i'w gilydd mewn darlun wal hynafol o Ddydd y Farn, a gollwyd am ganrifoedd. Mae un o ddarllenfeydd eryr efydd hynaf Prydain yn y fan hon, ynghyd â gwydr lliw cain, gan gynnwys ffenestr a briodolir i Burne-Jones, nifer o gorbelau a cherfluniau to canoloesol difyr, a llawer o nodweddion diddorol eraill.

Bydd ymwelwyr yn gweld tystiolaeth o'r cysylltiadau hanesyddol niferus â'r Ffiwsiliwyr Brenhinol Cymreig, a chyswllt traws-Atlantig rhyfedd yw bod bedd Elihu Yale, sefydlydd Prifysgol Iâl, y tu allan i'r drws gorllewinol.

CYFLEUSTERAU:

- System dolen i'r rheini sy'n drwm eu clyw
- Wedi'i gwresogi a'i goleuo bob amser
- Byrddau esbonio dwyieithog
- Siop yn gwerthu arweinlyfrau, cardiau, anrhegion a chofroddion
- Bysiau, teithiau trefnedig a dringo'r tŵr yn bosibl drwy apwyntiad o flaen llaw
- Toiledau Cyhoeddus agosaf: Rhodfa San Silyn
- 10 munud o'r orsaf fysiau, 15 munud o'r gorsafoedd trenau
- Maes parcio â pharcio anabl

LLEOEDD I YMWELD Â NHW:

- Canolfan Groeso Wrecsam
- Amgueddfa
- Byd Dŵr

Am wybodaeth am fynediad, gweler y dudalen ychwanegol yn y ffolder hwn.

CYSWLLT:
Ffôn: 01978 292015
E-bost:
wrexhamparish@aol.com

AMSEROEDD AGOR:
Bob dydd:
11.00am - 3.00pm

Maes Parcio Talu ac Arddangos, Rhodfa San Silyn, 24 awr
Talu rhwng 8am - 5pm

Toiledau Cyhoeddus ar agor 8.30am-5.30pm
Llun - Sad